| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 5 Mehefin 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018-19 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018-19 i'r Pwyllgor, sy'n darparu barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu blynyddol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod adolygiad o drefniadau llywodraethu yn cael eu hadrodd o fewn yr awdurdod, yn achos y Cyngor y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ac yn allanol gyda chyfrifon a gyhoeddir gan yr awdurdod. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adolygiad blynyddol o'r systemau rheolaeth fewnol ac yn casglu sicrwydd o amryw o ffynonellau i'w gefnogi. Mae Archwilydd Mewnol yn gyfrannwr allweddol, a dylai'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r rhai â chyfrifoldeb dros lywodraethu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiad blynyddol a 'barn' gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae Adroddiad Archwilio Mewnol 2018-19 wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 ac mae'n dangos:

- Bod y farn wedi'i ffurfio ar sail gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, yn unol â Strategaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol;
- Lefel y gwaith a wnaeth yr Archwilwyr Mewnol i gyrraedd y 'farn' gyffredinol;
- Nid yw'r farn yn awgrymu bod Archwilio Mewnol wedi adolygu holl risgiau yn ymwneud â'r Cyngor. Wrth roi barn, mae'n hanfodol nodi nad all sicrwydd fod yn absoliwt. Yr oll all Archwilio Mewnol ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system rheolaeth fewnol.

- Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi ‘sicrwydd canolig’ ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- crynodeb o’r gwaith gwrth-dwyll;
- sut y mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Mae’r gweithredoedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaethau perthnasol a pholisïau’r Cyngor yn cael eu gwneud o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda swyddogion, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddrafftio’r Strategaeth Archwilio Mewnol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Gall system rheolaeth fewnol annigonol ac aneffeithlon gael effaith andwyol ar brosesau rheoli risg y Cyngor a llywodraethu corfforaethol ehangach, ac felly, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Mewnol werthuso effeithiolrwydd rheoli risg a chyfrannu tuag at wella prosesau rheoli risg.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.